

28 Mehefin 2013

Trosglwyddo'r Gymraeg ac Aelwydydd

Pwyntiau allweddol

Mae'r canlyniadau allweddol o ran trosglwyddo'r iaith yn y cartref yn cael eu cyflwyno ar gyfer aelwydydd un teulu sydd â phlant 3-4 oed (roedd hyn yn cynrychioli 92 y cant o blant 3-4 oed yn 2011). Caiff y raddfa drosglwyddo ei diffinio fel cyfran y plant 3-4 oed mewn teulu a all siarad Cymraeg.

Mewn bwletinâu ystadegol blaenorol nodwyd fod nifer y plant 3-4 oed a all siarad Cymraeg wedi cynyddu o 13,329 yn 2001 i 16,495 yn 2011 (cynnydd o 18.8 y cant i 23.3 y cant).

- Roedd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai dau oedolyn siarad Cymraeg, wedi aros yn sefydlog rhwng 2001 a 2011, ar oddeutu 82 y cant(1).
- Roedd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, wedi cynyddu o 40 y cant yn 2001 i 45 y cant yn 2011.
- Y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, oedd 53 y cant. Mae hyn yn cymharu â 55 y cant yn 2001.
- Roedd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd pâr, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, yn uwch mewn achosion lle'r roedd y siaradwr Cymraeg yn fenyw yn hytrach na'n ddyn (49 a 40 y cant yn y drefn honno). (Brawddeg newydd –ychwanegwyd 12 Gorffennaf 2013).
- Roedd y gyfradd drosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant, lle gallai un oedolyn siarad Cymraeg, yn uwch mewn achosion lle'r roedd y siaradwr Cymraeg yn fenyw yn hytrach na'n ddyn (54 a 42 y cant yn y drefn honno). (Brawddeg newydd –ychwanegwyd 12 Gorffennaf 2013).

Siaradwyr Cymraeg yn ôl maint yr aelwyd yn 2011

- Bu gostyngiad yng nghyfran yr aelwydydd lle'r oedd o leiaf un person a allai siarad Cymraeg, o 28 y cant yn 2001 i 26 y cant yn 2011.
- O'r dros 555,000 o bobl a allai siarad Cymraeg a oedd yn byw mewn aelwydydd, roedd bron 230,000 (41 y cant) ohonynt yn byw naill ai wrthynt eu hunain neu mewn aelwydydd lle gallai pawb siarad Cymraeg. Y ffigur cyfatebol yn 2001 oedd 45 y cant.
- Roedd cyfran yr aelwydydd lle'r oedd pob un yn siarad Cymraeg wedi gostwng o 11.1 y cant yn 2001 i 9.4 y cant yn 2011.

Yng Nghyfrifiad 2011, gofynnwyd y cwestiwn 'A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?' – ac roedd modd ateb drwy dicio un neu ragor o bum blwch (un i bob categori ac un ar gyfer 'Dim un o'r rhain') mewn unrhyw gyfuniad. Dim ond yng Nghymru y gofynnwyd y cwestiwn hwn, a chyflwynir atebion ar gyfer pobl 3 oed a throsodd. Nid oedd y Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth ynghylch pa mor rhugl ydynt na pha mor aml y maent yn defnyddio'r Gymraeg.

Nodi

(1) Mae ffigurau 2011 yn cynnwys plant sy'n byw mewn aelwydydd lle mae mwy na dau oedolyn yn siarad Cymraeg (ee dau oedolyn a brawd neu chwaer hŷn nad yw'n ddibynol).

Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

Ffon: 029 2082 3332

E-mail: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

